CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16eg EBRILL 2019

YN CAPEL GAD BODFFORDD

PRESENNOL:
Cyng R R Roberts, J E Lewis, D T Roberts, E W Roberts, W R Parry ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng H G Owen, E Williams, R M Roberts, E D Owen.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb

CAEL COFNODION 19eg MAWRTH 2019 YN GYWIR. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng D T Roberts.

Cyfarfod gyda Mrs Lynsey Campbell-Williams (Medrwn Mon) wedi ei ohirio oherwydd gwyliau. Ail drefnu am Mai 21ain.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Ganolfan Bodffordd. Dim yn digwydd. Swyddogion newydd. Gwaith ar ol y Pasg.

Mynwent Gymunedol Bodffordd. Pris wal i`r fynwent yn aruthrol. Dal i chwilio.

Cynllun Cynllunio Treflys, Tynlon. Y Cynllun daeth i law yn Medi 2015. 14C244. Cais i gael gwared ar y porth presennol ynghyd a chodi porth newydd. Derbyn. Trafod pwyllgor nesaf.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.
1. Dim.

PENDERFYNIADAU:
2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)
3. Busnes y Cyngor.
   Gorchymyn. (Gwahardd Traffig Trwodd Dros Dro)(Gwaith Cynnal a Chadw ac Ail-Wynebu - Amryw Leoliad Ynys Mon) 2019. Derbyn y wybodaeth.

4. Swyddog Polisi.
   a. Coed Cadw - Coed am ddim i`w plannu. Cysylltu, efallai cael coed bach i`r Fynwent.

   b. Fforwm Cyswllt - Cofnodion Cyfarfod Diwethaf a Dyddiad y Cyfarfod nesaf. Derbyn.

5. Swyddog Monitro a Gorfodaeth Rheoli Gwastraff.
   Problem Baw Ci - Llynfaes a Bodffordd.
   Ardaloedd yma yn cael ei glanhau. (Bro Celyn tuag at eiddo o`r enw Corn Coch) Llynfaes. Bodffordd. eisoes wedi derbyn cwyn ac yn cael ei fonitro.

6. Uwch Beirianydd Traffig a Pharcio.
   Arwyddion 30 m.y.a. safonol sydd ar lon Sardis, Bodffordd. Oherwydd pryderon bydd yr arwyddion yma yn cael eu huwchgraddio i`w gwneud yn fwy amlwg drwy ddefnydd cefndir llachar melyn. Hefyd gosod ARAF / SLOW ar y lon . Derbyn yn ddiolchgar.

GOHEBIAETH (ARALL)
7. Cwyn gan ran Deiliad Maes Meillion, Bodffordd.
   Y llanast tu allan i Ty Hen Newydd, Bodffordd eiddo Mr John Egryn Lewis. Mae`r llanast yn yr eiddo a thu allan yn anioddefol ac yn alar llygad.
   Y Clerc wedi anfon copi o`r llythyr ymlaen i`r Cyngor Sir ac wedi cael ymateb:-

Wedi gyrru y cwyn ynghlyn a`r sbwriel, golwg, llygredd a llygod mawr i`r adran Gwarchod y Cyhoedd, a byddant yn ymateb yn uniongyrchol.
Arolygwr Gwaith Strydoedd Mr Rhys Williams i gymryd y mater o`r gordyfiant i fynnu gyda pherchennog yr eiddo Mr Lewis. Gall y broses cymryd hyd at 6 wythnos i ddatrys os ydi nad ydi ef yn cydymffurfio gyda`r orfodaeth.
Y Cyngor i ymateb ar cwyn a tynnu sylw y Cyngor Sir at y llanast yn eiddo Mr M Jones, Cae Bach Aur, Bodffordd. Cynnig Cyng E W Roberts eilio Cyng D T Roberts.

8. Yr Arolygiaeth Gynllunio. Cais Horizon Niwclear am rhoi gorchymyn caniatad. Derbyn.

9. Ymgynghoriad: Trafodaeth o`r Cynigion i ddiwygio deddf archwilio cyhoeddus (Cymru) 2013. Derbyn y wybodaeth. Dim sylw.

10. Lly Awyr Brenhinol. Chwilio am wirfoddolwyr. Derbyn y wybodaeth a`r Clerc i ymateb.

11. Llywodraeth Cymru.
Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru - Rydym ni eisiau clywed oddi wrthych chi.
Barn am y gwasanaeth Cynllunio y eich ACLl chi, a ydych yn teimlo bod y Cyngor yn cymryd rhan effeithiol yn y broses cynllunio.
Dim yn gwrando llawer ar farn y Cyngor Cymdeithas. Y Clerc i ymateb.

12. SEAFARERS uk. Hedfan y Faner Goch i`r Llynges Fasnachwr 3ydd Medi 2019. Derbyn.

13. BDO. Ffurflen Awdit i law 2018 / 19. Clerc i weithredu.

14. Post Brenhinol. Post yn hwyr yn Llynfaes. (Canolfan Gyswllt Bangor. 14 Llys Castan, Ffordd y Parc, Parc Menai, Bangor LL57 4FH. (08456 030 800) Edwen Jones. Ymgynghorydd Gwasanaethau Cwsmer.
Nid oedd lawer o eglurhad derbynniol. Gan fod Llynfaes mewn lleoliad gweledig, mae dosbarthiad am unrhyw amser hyd at 4yh o fewn ei targedau. (Mae yn hwyrach ar adegau)
Maen`t yn dweud y gall rhai trigolion cael ei post yn gynt, "Mail Collect". Gall cwsmeriad gasglu eu post o`r swyddfa dosbarthu rhwng 8.30yb ac amser cau. (Llangefni) Beth am y gost? Beth am y bobl mewn oed efallai dim car na unrhyw gludiant? Nid oes unrhyw gyfeiriad am y postmon anghwrtais.

RHODDION
15. Dim.

PLWYFOL.
16. Dywedodd Cyng W R Parry fod PAR yn defnyddio lon Bodwrog (Fferm Bodwrog at Hen Bost Tynlon) yn rheolaidd. Gwyneb dros dro sydd arni.

MATERION ARIANNOL:
17. Cyfrif Rhedegol £3,562.50.

TALIADAU:
18. Clerc £220.87.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng D T Roberts, eilio Cyng E W Roberts.